# COFNODION

## Y CYFARFOD CYNGOR A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD IAU, 13 RHAGFYR 2018 AM 5.00PM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M.Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, V. James, G. Johnston, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, Mrs E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. .Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, Mrs E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. . Whittle, T. Williams, W. Williams.Whittle, T. Williams, W. Williams.

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Addysg a Chorfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro), L. Morgan (Rheolwr Trwyddedu), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedau a Chofrestru) N. Scammell (Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro, E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Angel, J. Bevan, K.

Dawson, M. Evans, M. James, L. Jeremiah, S. Kent, D. Price, M. Sargent, S. Skivens, J. Taylor a B. Zaplantynski.

## 2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf a chyfeiriodd yn benodol at y gwobrau Pentref Taclusaf/ Ysgol Daclusaf, Cynllun Darllen yr Haf a'r digwyddiadau Diwrnod Coffa amrywiol a gynhaliwyd ledled y fwrdeistref sirol. Cyfeiriodd hefyd at ddigwyddiad gyda Chôr Merched Cefn Hengoed er budd Elusen y Maer a diolchodd yn ffurfiol i bawb a oedd yn ymwneud ag Ymgyrch Siôn Corn eleni am eu gwaith caled a'u haelioni. Yn olaf, cydnabu'r Maer Ben-blwydd Priodas Diemwnt a ddathlwyd gan y Cynghorydd D. T. Davies a'i wraig a diolchodd iddynt am eu lletygarwch.

## 3. CYFLWYNO GWOBRAU

Nid oedd unrhyw wobrau i'w cyflwyno**.**

## 4. DATGANIADAU O FUDDIANT

Rhoddodd y Swyddog Monitro gyngor i Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu (IDC) mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 14 a chadarnhaodd, gan fod yr adroddiad yn ymwneud â darpariaeth ariannol yn unig ac nid yr ymchwiliad ei hun, nid oedd yn ofynnol iddynt adael y Siambr fodd bynnag roedd hwn yn fater i'r aelod unigol ei ystyried.

Wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro, cadarnhaodd Cynghorwyr C. Gordon, D.T. Davies a N. George fel Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y byddent yn gadael y Siambr pan drafodwyd yr eitem. Cadarnhaodd y Cynghorwyr M. Adams a J. Simmonds ar ôl ystyried cyngor y Swyddog Monitro y byddent yn aros.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a'r Prif Weithredwr Dros dro hefyd am gyngor yn hyn o beth gan fod y ddwy swydd yn gysylltiedig â'r trefniadau rheoli dros dro sydd yn digwydd ar hyn o bryd o ganlyniad i'r broses barhaus. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad dan ystyriaeth yn ymwneud yn unig â darpariaeth ariannol ychwanegol ac nid yr ymchwiliad ei hun ac felly nid oedd yn ofynnol i'r naill Swyddog neu'r llall adael y siambr. Roedd y cyngor hwn yn adlewyrchu'r cyngor a roddwyd i aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

## 5. CYNGOR ARBENNIG - 31 GORFFENNAF 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2018 (rhifau cofnod. 1-5).

## 6. CYNGOR – 9 HYDREF 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2018 (rhifau cofnod. 1-15).

## 7. I DDERBYN DEISEBAU

Derbyniodd y Maer y deisebau canlynol a gyflwynwyd gan yr Aelodau ar ran trigolion lleol a dywedodd y byddent yn cael eu cyfeirio at y gyfadran briodol i gael sylw:

(i) Dileu Tawelu Traffig ym Mhentref Pentwyn-mawr - Y Cynghorydd G. Johnston;

(ii) Dim £242,000 ychwanegol ar gyfer ymchwiliad sgandalau tâl Prif Weithredwr Cyngor Caerffili - Y Cynghorydd N. Dix.

**8. HYSBYSIAD O GYNNIG - YMGYRCH '20 YN DDIGON'**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu ar yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd S. Morgan a'i gefnogi gan y Cynghorwyr D.V. Poole, B.Jones, C.Cuss, C.Gordon, L.Phipps, N. George, P. Marsden ac E. Stenner. Yn unol â Rheol 11 (3) o'r Cyfansoddiad, roedd y Maer wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb ei drafod yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu.

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan yn ei Hysbysiad o Gynnig fod: -

(i) y Cyngor yn cefnogi Ymgyrch '20 Yn Ddigon' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain gyda rhagosodiad o 20mya ar gyfer ardaloedd adeiledig. Gellir gwneud hyn ar y rhan fwyaf o strydoedd heb yr angen am unrhyw gamau tawelu corfforol ac rydym yn derbyn ar rai strydoedd efallai y byddai'n briodol cael y cyfyngiad cyflymder 30mya uwch, ond dylai unrhyw gyfyngiad uwchben 20mya bod yn benderfyniad ystyrlon yn seiliedig ar amgylchiadau lleol.

(ii) i gefnogi'r alwad hon hefyd i Lywodraeth Cymru edrych ar yr holl dystiolaeth ar gyfer ac yn erbyn y fenter hon, yn enwedig, ond heb fod yn gyfyngedig i ...

Lleihau costau i'r gwasanaeth iechyd trwy ostyngiadau mewn, a difrifoldeb, damweiniau.

Cynnydd mawr mewn cefnogaeth leol am 20mya ar ôl ei weithredu.

Mae'r cyfyngiadau 20mya yn boblogaidd ac yn effeithiol wrth leihau peryglon ac ofn ar y ffyrdd, gan gynyddu a chefnogi mentrau teithio llesol sy'n ffordd gost-effeithiol o godi lefelau iechyd y cyhoedd ac ymarfer corff.

Mae'r fenter hon yn cael ei gefnogi gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Sefydliad Iechyd y Byd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig ac mae hefyd yn cydnabod bod gan yr Alban mesur yn mynd trwy ei senedd i osod terfyn cenedlaethol o 20mya.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r mecanwaith ar gyfer hysbysu'r Cyngor am hysbysiad o gynnig heb yr angen iddynt gael eu hystyried yn gyntaf yn y Pwyllgor Craffu. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei bod yn ôl disgresiwn y Maer i wneud y penderfyniad hwnnw a chadarnhaodd y Maer ei resymau dros y penderfyniad yn unol â'r weithdrefn.

Trafododd yr Aelodau'r ffaith bod gorchmynion traffig eisoes o fewn grym yr Awdurdod i'w gweithredu a bod cynigydd y cynnig yn cydnabod hyn, fodd bynnag, byddai hynny'n golygu gweithredu ar sail bob yn dipyn yn hytrach na dull Cymru gyfan, a fyddai'n sicrhau cysondeb a bod yn fwy cost effeithiol.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gymeradwyo ac wrth ddangos dwylo, cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD cefnogi'r hysbysiad o gynnig fel y nodwyd yn 4.1 yr adroddiad.

## 9. HYSBYSIAD O GYNNIG - GORSAF HEDDLU CAERFFILI

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu ar yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd J. Pritchard a'i gefnogi gan y Cynghorwyr D.V. Poole, B. Jones, S. Morgan, C. Mann a P. Bevan. Yn unol â Rheol 11 (3) o'r Cyfansoddiad, roedd y Maer wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb ei drafod yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu.

Gofynnodd y Cynghorydd Pritchard yn ei Hysbysiad o Gynnig fod y Cyngor: -

i) yn nodi adolygiad 'Heddlu Gwent' o wasanaethau rheng flaen yr Heddlu a pha mor aml y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio. Mae'r penderfyniadau i gadw neu gael gwared ar wasanaethau rheng flaen yng Ngwent yn aros gyda'r Prif Gwnstabl dros Gwent.

(ii) yn nodi ymhellach bod cyswllt wyneb yn wyneb rhwng aelodau'r cyhoedd a'r Heddlu, mewn amgylchedd diogel yn bwysig er mwyn sicrhau bod adroddiadau am droseddau yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

(iii) yn ymwneud â gostyngiadau ariannol parhaus go iawn ar gyfer Heddlu Gwent a'r toriadau o 21,000 o swyddogion yr heddlu ers 2010. Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Geidwadol y DU i wrthdroi toriadau i gyllidebau heddlu.

(iv) Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu cael gwared ar wasanaethau rheng flaen yng Ngorsaf Heddlu Caerffili ac yn gwahodd Heddlu Gwent i gydweithio â Bwrdeistref Sirol Caerffili i wneud y gorau o'r ddarpariaeth ddesg yn Llyfrgell Caerffili i gynyddu cyswllt wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gefnogi gan yr Aelodau. Yn ystod y ddadl gofynnwyd i gynigydd y cynnig ystyried newid i eiriad y cynnig a gwrthodwyd hyn. Yna, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i dderbyn pwyntiau (i) - (iii) ond i ddiwygio geiriad pwynt (iv) y cynnig er mwyn diogelu'r ddarpariaeth yn well o leoliad Gorsaf Heddlu Caerffili. Y diwygiad i ddweud: -

(iv) Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu cael gwared ar wasanaethau rheng flaen yng Ngorsaf Heddlu Caerffili ac yn gwahodd Heddlu Gwent i gydweithio â Bwrdeistref Sirol Caerffili i wneud y gorau o'r ddarpariaeth ddesg i gynyddu cyswllt wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd trwy ddefnyddio'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth a Swyddogion Gorfodaeth.

Trwy ddangos dwylo ac wrth nodi bod 46 yn erbyn, datganwyd fod y gwelliant wedi ei wrthod.

Trwy ddangos dwylo ac wrth nodi bod 2 ymataliad, cadarnhawyd y cynnig.

PENDERFYNWYD cefnogi'r hysbysiad o gynnig fel y nodwyd yn 4.1 yr adroddiad.

## 10. LLYTHYR BLYNYDDOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2017/18

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynodd Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017/18.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y llythyr yn nodi dadansoddiad clir a chryno o'r holl gwynion a dderbyniwyd ac a ymchwiliwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2017/18 yn ymwneud â CBS Caerffili. Cyfeiriwyd yr aelodau at adrannau 4.3.1, 4.3.2 a 4.3.4 o'r adroddiad a oedd yn amlygu canfyddiadau'r Ombwdsmon. Mewn perthynas â chwynion cod ymddygiad, nodwyd bod 4 cwyn wedi eu derbyn o fewn yr amserlen hon, a chafodd pob un ohonyn nhw ei gau ar ôl ystyriaeth gychwynnol i'r mater.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r cynnwys, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael eu cymeradwyo a thrwy ddangos dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD nodi Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017/18.

## 11. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn cynnig newidiadau i'r Cyfansoddiad yn Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn o ran Cwestiynau gan Aelodau ynghyd â newidiadau i'r templed adroddiad, a gynhwysir hefyd yn Rhan 4.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at adran 5.1 o adroddiad y Swyddogion a oedd yn manylu ar y newidiadau i Gwestiynau gan Aelodau a chadarnhaodd pe bai cwestiynau cymeradwy yn cael eu gofyn ac yn cael eu hateb ar lafar yng nghyfarfod y cyngor yn hytrach na chael yr ymatebion ysgrifenedig wedi eu cofnodi. Gyda chyfarfodydd y Cyngor yn cael eu gwe-ddarlledu, byddai gwylwyr yn eu cartrefi yn cael eu hysbysu'n well trwy weld a chlywed y cwestiynau sy'n cael eu gofyn a'u hateb.

O ran templed yr adroddiad, nodwyd bod adran 'Argymhelliad' yr adroddiad bellach yn ymddangos ar y dudalen gyntaf yn adran 3 gyda newidiadau canllawiau yn adran 7 ac adran 9, 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' a 'Goblygiadau Cydraddoldeb' yn y drefn honno .

Croesawodd yr Aelodau'r newidiadau i'r gweithdrefnau ar gyfer ateb cwestiynau a gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â chyfanswm nifer y cwestiynau a chadarnhawyd hyn fel 3 cwestiwn i'r Cabinet yn gyffredinol a 3 cwestiwn i'r Arweinydd. Gofynnwyd am eglurhad pellach o ran a fyddai cyflwyniadau ysgrifenedig yn cyfrif tuag at y 3 cwestiwn a ganiateir a chadarnhaodd y Swyddog Monitro pe bai Aelod yn dymuno cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig, y gallent wneud hynny ond byddai'n cyfrif fel 1 o'r 3. Nodwyd, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai'r weithdrefn yn cychwyn yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

Yn ystod y drafodaeth fe'i cynigiwyd ac eiliwyd y dylid gwneud gwelliant pellach i'r templed adroddiad i ymgorffori adran sy'n arwain at 'Tybiaethau Allweddol', byddai hyn yn caniatáu i Swyddogion gofnodi'r gwaith rhagfynegi allweddol a dyfarniadau strategaeth yn seiliedig ar dueddiadau a wnaed yn natblygiad y data yn cael ei gyflwyno i'w hystyried a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Wedyn cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn amodol ar gymeradwyo'r diwygiad ychwanegol uchod i'r templed adroddiad. Drwy gyfrwng y system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 1 yn erbyn, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif yn bresennol.

> PENDERFYNWYD:-
>
> (i) cymeradwyo'r newidiadau i Gwestiynau gan Aelodau fel y'u nodir yn Atodiad 1 i adroddiad y Swyddog a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro wedi'u hawdurdodi i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad;

(ii) cymeradwyo'r Templed Adroddiad fel y'i nodir yn Atodiad 1 i adroddiad y Swyddog gydag adran Rhagdybiaethau Allweddol ychwanegol a chaniateir i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad.

**12. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL.**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn darparu adolygiad o'r cydbwysedd gwleidyddol ar draws yr awdurdod oherwydd newid aelodaeth o fewn y grŵp gwleidyddol Llafur.

Dywedodd y Swyddog Monitro na fu unrhyw newid i'r dyraniad cyffredinol o seddi i'r pwyllgorau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Wedi ystyried ei gynnwys yn llawn fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo. Trwy’r system pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD nodi'r cydbwysedd gwleidyddol fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 o adroddiad y Swyddog.

**13. DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGIAD O DDATGANIAD Y POLISI TRWYDDEDU.**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo ar 29 Tachwedd 2018.

Yn unol â Deddf Gamblo 2005 paratowyd ac ymgynghorwyd ar y Datganiad Polisi Trwyddedu er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i gyhoeddi polisi diwygiedig erbyn 1 Ionawr 2019. Cadarnhawyd yr ymatebion a gafwyd o'r broses ymgynghori a chafodd sylwadau ac argymhelliad y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo eu hamlinellu.

Wedi ystyried ei gynnwys yn llawn fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo. Trwy’r system pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwyddedu diwygiedig.

**14. YMCHWILIAD O'R UWCH SWYDDOG - DARPARIAETH ARIANNOL YCHWANEGOL**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr Aelodau na ddylid cynnal unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r ymchwiliad parhaus gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu gan fod yr adroddiad i'w ystyried yn gofyn am gymeradwyaeth am ddarpariaeth ariannol ychwanegol yn unig ac nad oedd yn mynd i'r afael â'r ymchwiliad ei hun. Ailadroddwyd y cyngor cynharach gan y Swyddog Monitro o ran nad oedd yn ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu adael y cyfarfod, ond mater i'r Aelod unigol o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu oedd hwn.

Fel Aelodau o’r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, gadawodd y Cynghorwyr D. Davies, C. Gordon a N. George y Siambr pan drafodwyd yr eitem.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth Y Cyngor am ddarpariaethau ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r ymchwiliad mewnol parhaus o'r Uwch Swyddog. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd y cyfnod amser gwreiddiol ar gyfer yr ymchwiliad ffurfiol gan y Person Annibynnol Dynodedig yn debygol o gael ei wireddu ac roedd awgrymiadau o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu oedd y byddai'n debygol o fynd ymlaen tan ddiwedd mis Mawrth 2019 ar y cynharaf er mwyn dod a'r broses i ben. O ganlyniad i hyn,

roedd angen sefydlu darpariaeth ariannol arall o £108 mil i dalu costau cyflog yr Uwch Swyddog am y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2019 gyda'r ddarpariaeth ychwanegol a ragwelir o ran ffioedd cyfreithiol o £134 mil am yr un cyfnod.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 4.9 yr adroddiad a oedd yn nodi cyfanswm y costau hyd yn hyn a'r tablau yn 7.1 ac Atodiad 1 sy'n darparu gwybodaeth ariannol ychwanegol. Cadarnhaodd Swyddog Adran 151 y byddai'r ddarpariaeth ychwanegol yn cael ei ariannu o'r tanwariant rhagamcanol ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â Rheoli'r Trysorlys.

Mynegodd yr Aelodau eu rhwystredigaeth, eu siom a'u gofid bod rhaid sicrhau bod mwy o arian ar gael er mwyn dod â'r broses i ben, yn enwedig yn ystod cyfnod o bwysau ariannol anodd iawn, a chydag anfodlonrwydd cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo.

Er bod yr Aelodau'n derbyn bod yr Awdurdod yn rhwym yn gyfreithiol i ddilyn y ddeddfwriaeth llywodraethol sy'n rheoli achosion disgyblu ar gyfer swyddogion statudol, ystyriwyd bod y methiant i fodloni terfynau amser a chyfnodau amser yn annerbyniol a gofynnwyd am eglurhad p'un ai gallai'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn mynd i fynd i'r afael â'r pryderon sy'n cael eu codi. Dywedodd y Swyddog Monitro, fel person annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, na ddylai gael unrhyw gysylltiad ffurfiol â'r Cyngor tan ddiwedd yr ymchwiliad a thra roedd yn llwyr dderbyn a gwerthfawrogi rhwystredigaeth yr Aelodau, ailadroddodd fod hwn yn broses statudol y mae'n rhaid ei dilyn.

Yn ystod y drafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd cynnig pellach na fyddai unrhyw ddarpariaeth ariannol bellach a bod yr ymchwiliad yn dod i ben ar 31 Rhagfyr a beth bynnag oedd y canfyddiadau ar yr adeg yma, y byddant yn cael eu hadrodd i'r Cyngor.

Mewn perthynas â'r cynnig, gofynnwyd am gyngor gweithdrefnol, oherwydd teimlwyd y byddai Aelodau'n pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog, oherwydd y byddai'r cymeradwyaeth a roddwyd gan y Cyngor ar 17 Ebrill 2018 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2018 beth bynnag. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y ddealltwriaeth hon yn gywir ac fel y cyfryw, tynnwyd y cynnig yn ôl.

Yna gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r costau Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a chadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro, gan nad oedd ganddi'r wybodaeth wrth law, y byddai'r adroddiad blaenorol i'r Cyngor a oedd yn nodi y byddai gwariant yn cael ei ddosbarthu i bob Aelod yn dilyn y cyfarfod. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y costau Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn rhan o'r cronfeydd ychwanegol y gofynnwyd amdanynt, roedd y rhain wedi'u cytuno'n flaenorol a heb gael eu newid.

Mynegodd yr Aelodau eu rhwystredigaeth a'u siom parhaus yn y broses, ei gostau cynyddol a'r ddeddfwriaeth a oedd yn gorfodi'r achos statudol, yn enwedig yng ngoleuni'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb a'r effaith y byddent yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, yr argymhelliad a gynhwyswyd ynddo ac wedi cael ei gynnig a'i eilio drwy gyfrwng y system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 16 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cymeradwywyd hyn gan y mwyafrif yn bresennol.

Yn syth ar ôl y bleidlais ac yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.5, dymunodd Cynghorwyr L. Binding, K. Etheridge a G. Simmonds ei fod yn cael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo sefydlu darpariaeth ariannol arall o £242 mil i'w ariannu o'r tanwariant rhagamcanol o Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19.

## 15. COFNODION Y PWYLLGOR SAFONAU - 2 TACHWEDD 2018

Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2018.

**16. DATGANIAD ARWEINYDD Y CYNGOR**

Cyfarchodd y Cynghorydd D. V. Poole y Cyngor a mynegodd ei ddiolch a'i edmygedd i staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am eu gwaith caled a oedd yn darparu gwasanaethau eithriadol o ddydd i ddydd i breswylwyr y fwrdeistref. Mewn blwyddyn o doriadau gyda heriau ariannol pellach o'n blaenau ni ddylid eu cymryd yn ganiataol a dylid eu llongyfarch.

Roedd yr Arweinydd yn cydnabod y galw cynyddol ar Gynghorwyr a'u canmol am eu parch at ei gilydd waeth beth fo'u gwahaniaethau gwleidyddol a diolchodd iddynt am eu her a'u cefnogaeth.

Gydag ansicrwydd Brexit ac yng ngoleuni'r mesurau llym sydd i ddod, sicrhaodd yr Arweinydd yr Aelodau y byddai Bwrdeistref Sirol Caerffili yn parhau i gryfhau cysylltiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol â'r Prif Weinidog newydd ac adeiladu ar y berthynas honno. Byddai'n parhau i bwysleisio pwysigrwydd rôl Llywodraeth Leol fel y gwasanaeth iechyd ataliol.

I orffen dymunodd y Cynghorydd Poole Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'r rhai oedd yn bresennol.

**17. I DDERBYN AC I ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10 (2).**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cwestiynau canlynol o dan Reol Gweithdrefn 10 (2). Yn unol â'r diwygiadau i'r cyfansoddiad, rhoddwyd yr atebion hefyd.

Terfynwyd y cyfarfod am 18.55pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunir ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

____________________________

MAER